**Eitem: 8**

**Teitl:** Adroddiad y Prif Weithredwraig

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi rhai o weithgareddau'r Prif Weithredwraig ers cyfarfod cyhoeddus llawn diwethaf y Bwrdd ar 25 Medi 2024. Mae gwybodaeth fanylach am ein gweithgareddau a'n datblygiadau allweddol ers cyfarfod diwethaf y bwrdd wedi'i chynnwys ym mhapurau eraill y Bwrdd.

### Datblygu cysylltiadau a gweithio gyda phartneriaid

Rwyf wedi cyfarfod â llawer o bartneriaid allweddol i siarad am ein rôl, datblygu ein cynlluniau a chyflawni ein gweithgareddau, ein ffyrdd o weithio, materion allweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i gryfhau llais pobl mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyfarfodydd rheolaidd gyda thîm partneriaeth Llais yn Llywodraeth Cymru i siarad am weithgareddau a pherfformiad Llais, gweithgareddau datblygu, dyrannu cyllideb a rheoli ar gyfer 2024-2025 a threfniadau cynllunio'r gyllideb ar gyfer 2025-2026. Roedd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth fanwl am effaith wirioneddol ansicrwydd ariannol ar ddatblygu a darparu ein gwasanaethau.

- Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Dros Dro i siarad am ddatblygiadau gofal iechyd a'r hyn yr ydym yn ei glywed gan bobl ledled Cymru.

  Buom yn siarad am amrywiaeth o faterion gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar y broses Gweithio i Wella[1], effaith pryderon yn Lloegr am feddygon cyswllt ar y rolau hyn yng Nghymru, gofal iechyd gwledig, ac effaith y broses ardystio marwolaethau ddiwygiedig yng Nghymru.

  Bum hefyd yn siarad am yr effaith a'r dysgu posibl i'r GIG o ystod eang o ymchwiliadau cyhoeddus parhaus, e.e., Hillsborough, Grenfell, bomio Manceinion, ymchwiliad gwaed heintiedig, ac ati. Ymhlith y datblygiadau eraill a allai effeithio ar y GIG yng Nghymru mae cynigion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr i reoleiddio rheolwyr y GIG yn Lloegr.[2]

- Trefnu cyfarfodydd rheolaidd neu rannu gwybodaeth gyda chynrychiolwyr iechyd a gofal cymdeithasol neu gyrff rheoleiddio. Roedd hyn yn cynnwys:

[1] Ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r broses Putting Things [HTML] | GOV. CYMRU
[2] Arwain y GIG: cynigion i reoleiddio rheolwyr y GIG - GOV.UK

- Arolygiaeth Gofal Cymru. Rydym wedi rhannu gwybodaeth am wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym wedi trafod amrywiaeth o faterion gan gynnwys:

  - effaith sy'n dod i'r amlwg o'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)[3] drafft mewn darpariaeth cartrefi plant awdurdodau lleol
  - ymgysylltu ynghylch cau cartrefi gofal
  - trefniadau ar gyfer cyfeirio pobl at ein Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion
  - cyflwyno sgoriau ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a chymorth cartref[4] o fis Ebrill 2025.

  Arweiniodd ein sgyrsiau at fy nghytundeb i ymuno â Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal Cymru, i weithio mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar ein dulliau o ymdrin â thegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ac i nodi cyfleoedd pellach i weithio ar y cyd ar adolygiadau a gynlluniwyd.

- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Yn ogystal â'n cyfarfodydd rheolaidd i rannu gwybodaeth am wasanaethau'r GIG, a nodi meysydd ar gyfer cydweithio posibl, rwyf hefyd wedi mynychu cyfarfodydd yr uwchgynhadledd gofal iechyd bob dwy flynedd[5].

  Mae'r cyfarfodydd hyn yn arwain at adborth i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr y GIG am gyrff unigol y GIG a themâu cyffredin ar draws GIG Cymru. Mae'r adborth hwn yn llywio'r broses Cynyddu ac Ymyrryd ar gyfer cyrff y GIG, lle bo hynny'n briodol.

- Awdurdod Safonau Proffesiynol. Bum yn siarad am yr ymgynghoriad arfaethedig ar safonau proffesiynol, y rhwystrau a'r galluogwyr i wneud cwyn i reoleiddiwr proffesiynol iechyd neu ofal cymdeithasol, a chyflwyno rheoleiddio ar gyfer proffesiynau t meddygon cyswllt ac anesthesia cyswllt.

  Cytunais hefyd i gais gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol i Llais fod yn rhan o'i Grŵp Goruchwylio Annibynnol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth[6], i ddarparu safbwynt hanfodol i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth i oruchwylio ymateb y Cyngor i bryderon difrifol am ei ddiwylliant a'i lywodraethiant.

- Cydffederasiwn GIG Cymru. Yn ogystal â'n cyfarfod rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr, lle'r oeddem yn canolbwyntio ar effaith y pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar bobl, symud y ffocws at atal a hyrwyddo iechyd, a chydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

[3] Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)
[4] Sgoriau ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref | Arolygiaeth Gofal Cymru
[5] Uwchgynhadledd Gofal Iechyd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
[6] Diweddariadau Grwpiau Goruchwylio Annibynnol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth | PSA

Mynychais dderbyniad a chinio blynyddol y Cydffederasiwn hefyd, gan ganolbwyntio ar 'Uchelgais ar gyfer cenedl iachach'.

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.  Bum yn siarad am amrywiaeth o faterion gan gynnwys maint yr heriau ariannol sy'n effeithio ar awdurdodau lleol a'r effaith ar wasanaethau, a gweithio gyda phobl a chymunedau i gyflawni newidiadau.

  Bum hefyd yn siarad am rôl Llais wrth ysgogi newid drwy rannu enghreifftiau cadarnhaol o wasanaethau sy'n gweithio i bobl, yr heriau mewn gwasanaethau plant, cefnogi pobl i gael cyngor a gwybodaeth yn ddigon cynnar, gofal iechyd parhaus, y ffocws ar iechyd y cyhoedd, datblygiadau a defnydd Deallusrwydd Artiffisial mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a lansio rhwydwaith cynadledda gofal cymdeithasol cenedlaethol.

- Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)  Mewn cyfarfod rheolaidd gyda chydweithwyr yn swyddfa Cymru, bum yn siarad am ymateb i adroddiad cenedlaethol Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer GIG Cymru [7], y cynnydd mewn lleoedd mewn ysgolion meddygol, a llais pobl mewn rhaglenni addysg gofal iechyd.

  Mynychais Grŵp Cleifion Ford Gron yn yr Hydref hefyd.  Roedd y digwyddiad hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu Strategaeth Gorfforaethol nesaf y GMC, gan ddod â  meddygon cyswllt ac anesthesia cyswllt i mewn i reoleiddio, a rôl, cylch gwaith a dull y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol[8] wrth amddiffyn y cyhoedd.

- Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC).  Bum yn siarad am y profiad o gyflwyno nyrsus cyswllt yn Lloegr, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn i'w ddisgwyl o rolau cyswllt, a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r cyngor, gan gynnwys gwelliannau i drefniadau addasrwydd i ymarfer.

▪ Cyfarfodydd gyda Grŵp Cymheiriaid Cadeiryddion GIG Cymru a Chyfarwyddwyr Cynllunio Cymru gyfan.  Bum yn siarad am weithgareddau Llais, yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau'r GIG a'r trefniadau sydd ar waith i ymdrin â chynigion i newid gwasanaethau'r GIG.

▪ Diweddariadau rheolaidd gyda Chomisiwn Bevan.  Bum yn siarad am ein rhaglen waith ar y cyd a'n gweithgareddau, yn enwedig ar y lansiad a'r cynnydd gyda'n gwaith ar y cyd ar 'Reolau Gwirion'.

▪ Trafodaethau gydag ystod o gyrff trydydd sector a chyrff eraill i rannu gwybodaeth a nodi/datblygu cyfleoedd i gydweithio:

[7] Adroddiad Cenedlaethol 2024 - GIG Cymru
[8] Cartref - MPTS

- Gofal canser Tenovus. Bum yn sôn am gynnydd wrth ddatblygu trefniadau partneriaeth i gefnogi pobl i godi pryderon am eu gofal, yn ogystal ag effaith heriau ariannol sy'n wynebu sefydliadau trydydd sector sy'n cefnogi gwahanol grwpiau o bobl.

- Age Cymru. Bum yn siarad am ein gweithgareddau a'r hyn yr oeddem yn ei glywed gan bobl hŷn, yn enwedig pobl yn aros yn rhy hir am ofal a thriniaeth wedi'i gynllunio.

- Triniaeth Deg i Ferched Cymru (FTWW). Bum yn siarad am lansiad y Cynllun Iechyd Menywod a'r potensial i gydweithio i glywed gan fenywod drwy gyfres o grwpiau ffocws.

- Cyfarfod â llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar iechyd a gofal cymdeithasol yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg i siarad am ddatblygiadau a heriau o ran darpariaeth gofal cymdeithasol, gwaith Llais a'i rôl mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

- Cyfarfod rhagarweiniol gyda Rhian Bowen-Davies, Comisiynydd Pobl Hŷn newydd Cymru. Roedd hwn yn gyfle gwerthfawr i siarad am sut y gallwn weithio'n effeithiol gyda'n gilydd i gryfhau ein llais cyfunol er budd pobl hŷn yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

- Cyfarfod rheolaidd o Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus Cymru. Clywodd y cyfarfod yn uniongyrchol gan Brif Weinidog Llywodraeth Cymru am ei blaenoriaethau allweddol yn canolbwyntio ar gyflawni, atebolrwydd a chynhyrchiant. Clywsom hefyd fwy gan Drysorlys Cymru am economi Cymru, ac ymuno â gweithdai a oedd yn canolbwyntio ar ein cyfrifoldebau arwain wrth greu Cymru Gwrth-hiliol.

## Datblygiadau a darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Rwyf wedi cyfarfod ag ystod o bobl, gan gynnwys llunwyr polisi iechyd a gofal cymdeithasol, cyrff datblygu a grwpiau i glywed am ddatblygiadau, a rhannu'r hyn rydym yn ei glywed am brofiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal i ddylanwadu ar yr hyn sydd angen digwydd i wella pethau.

Rwyf yn:

- parhau i weithio gyda chydweithwyr o'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth[9] ac eraill i yrru amcanion y Grŵp Cynghori Strategol ymlaen sy'n ymwneud ag ymgysylltu â dinasyddion â'r Swyddfa Genedlaethol.

- cyfarfod eto â phobl sydd wedi'u heffeithio gan ofal mamolaeth gwael a ddarparwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i

[9] Y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth | GOV. CYMRU

glywed mwy am yr effaith ar eu bywydau a sut maen nhw'n teimlo am yr adolygiad annibynnol.

- siaradodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys am ei heriau ariannol sylweddol a'i gynigion i arafu cyflymder y gofal a gynlluniwyd i bobl ar restrau aros GIG Lloegr i gyrraedd targedau ariannol ar gyfer 2024/25.

- siarad ag amrywiaeth o swyddogion polisi Llywodraeth Cymru am bynciau sy'n effeithio ar y cyhoedd yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys swyddogion:

  - o’r tîm Iechyd Menywod a Phlant am y Cynllun Iechyd Menywod[10], a symud ymlaen gyda chyflwyno tystysgrifau colli babanod swyddogol
  - oedd yn cymryd rhan mewn adolygiad o dargedau ambiwlans yng Nghymru, a'r hyn sydd bwysicaf i bobl
  - oedd yn gyfrifol am hyrwyddo ymgysylltu â'r cyhoedd a chymryd rhan mewn gwasanaethau gofal sylfaenol, i siarad am rôl grwpiau cyfranogiad cleifion
  - oedd yn cymryd rhan mewn cymryd camau gweithredu a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol[11].

- ymgysylltu â swyddogion yn y Pwyllgor Materion Cymreig ynghylch cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor ynghylch barn a phrofiadau pobl o ofal iechyd trawsffiniol.

Derbyniais hefyd ragor o wybodaeth fel parti â diddordeb am y trafodion Adolygiad Barnwrol gyda'r nod o herio penderfyniad Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru i gymeradwyo argymhellion ar gyfer adleoli Gwasanaethau Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys. Mae'r dyddiad gwrandawiad wedi'i bennu ar gyfer 22 a 23 Ionawr 2025.

**Datblygu ein hunain i gyflawni**

Rwyf wedi treulio llawer o amser yn gweithio gydag arweinwyr a staff ein sefydliad a gyda phartneriaid allanol i barhau i adeiladu ein capasiti, ein gallu a'n ffyrdd o weithio. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyfarfod â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i siarad am ein profiad o weithio o fewn fframwaith Safonau'r Gymraeg ers i'n hysbysiad cydymffurfio ddod i rym ar 1 Ebrill 2024.

  Bum yn siarad am bwysigrwydd creu amgylchedd sy'n rhoi hyder i bobl "roi cynnig ar y Gymraeg", yn ogystal â'n rolau wrth ysgogi gwelliant yn narpariaeth gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

- Mynychu rhai gweithdai a seminarau, gan gynnwys:

  - Ystyried yr effeithiau - seminar gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar ei safonau llunio polisi

[10] Lansio cynllun iechyd menywod Cymru i gau'r bwlch iechyd rhywedd | GOV. CYMRU
[11] Cynllun Gweithredu Cymru gwrth-hiliol: diweddariad 2024 [HTML] | GOV. CYMRU

- Cronfa’r Brenin – Gwrando ar bobl a chymunedau, y newid sydd ei angen arnom

- Comisiynu ein tîm arweinyddiaeth 'Tîm Arwain' i siarad am, penderfynu ar, gwneud cynigion, a goruchwylio cynnydd o amgylch y pethau a wnawn a sut rydym yn eu gwneud. Yn ogystal â'n gweithgareddau a'n ffocws arferol, rydym hefyd wedi trafod amrywiaeth o faterion gan gynnwys:

  - Gweithdy sy'n canolbwyntio ar ddatblygu fframwaith newid gwasanaeth newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol
  - Gosod blaenoriaethau ar gyfer adolygu ein polisïau sy'n ymwneud â'r Gweithlu
  - Datblygu ein polisi a'n gweithdrefnau diogelu
  - Cytuno ar ein protocol trafod cyfryngau
  - Ymateb i'n harolwg Llesiant
  - Adolygu ein fframwaith ymddygiad
  - Ein datganiad sefyllfa deintyddiaeth
  - Ein cynllun gweithredu strategaeth gwirfoddoli
  - Ein rhaglen datblygu eiriolaeth cwynion
  - Ein datblygiad fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd
  - Ein datblygiadau seilwaith digidol
  - Ein hagwedd at y Gymraeg
  - Adolygu ein dull o gynrychioli Llais ar fyrddau allanol, pwyllgorau, ac ati.
  - Ein blaenoriaethau dysgu a datblygu.

Rwyf hefyd wedi parhau i gwrdd â staff yn unigol ac ar y cyd i glywed ganddynt am weithio yn Llais.

## Trefniadau cynllunio ac adrodd

Yn dilyn cyfarfod Rhagfyr 2024, gwnaethom gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol terfynol a'n Cyfrifon ar gyfer 2023/2024 i Lywodraeth Cymru ac i Archwilydd Cyffredinol Cymru fel y gellid ei osod yn y Senedd, yn unol â'n gofynion deddfwriaethol.

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu ein blaenoriaethau Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024/25 i'w trafod gan y Bwrdd a'u cymeradwyo yn ein cyfarfod bwrdd cyhoeddus ym mis Mawrth 2025.

## Digwyddiadau a gweithgareddau i ddod

Mae rhai o'r gweithgareddau a'r digwyddiadau sydd ar y gweill y byddaf yn cymryd rhan ynddynt yn ystod yr wythnosau nesaf yn cynnwys:

- Archwilio cyfleoedd partneriaeth gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru – Cyfarfod â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr
- Heriau sy'n wynebu Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru – cyfarfod â'r Prif Weithredwr
- Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cyfarfod Prif Weithredwr Cyrff Cyhoeddus